


Wildlife Explorer Trail

Llwybr Antur Bywyd Gwylt

Cardiff Bay Wetlands Reserve


Gwarchodfa Gwlyptiroedd

Bae Caerdydd



Follow the map inside to find each of the 12 marker posts in and around the reserve
Dilynwch y map y tu mewn i ddod o hyd i bob un o'r 12 o byst marcio yn y warchodfa





Getting There / Sut i Gyrraedd:

Pedestrians / Cyclists

Cardiff Bay Wetlands Reserve is located next to St David's Hotel & Spa, through Havannah Street Car Park.

Cerddwyr / Beicwyr

Mae Warchodfa Gwlyptiroedd Bae Caerdydd ger Gwesty Dewi Sant, drwy Faes Parcio Havannah Street.

Bay Trail

Join the 10km (6.2mile) circular trail for cyclists and pedestrians around the Bay and across to Penarth via Pont y Werin Bridge.

Llwybr y Bae

Llwybr cylchol 10km (6.2milltir) i feicwyr a cherddwyr o amgylch y Bae a draw i Benarth dros Bont y Werin.

By Road

Parking is available next to the Wetlands Reserve 7 days a week: Havannah Street Car Park, Havannah Street, CF10 5SG

Ar y Ffordd

Mae manau parcio ar gael ger y Warchodfa Gwlyptiroedd 7 diwrnod yr wythnos: Maes Parcio Havannah Street, Havannah Street, CF10 5SG.

Contact Us / Cysylltu â Ni

Cardiff Harbour Authority / Awdurdod Harbwr Caerdydd
029 2087 7900

Collect the rubbings on the marker posts


Casglwch y rhwbiadau ar y pyst marcio

Key / Allwedd

12 Wildlife Explorer Trail / Llwybr Antur Bywyd Gwyllt

Path Network / Rhwydwaith llwybrau

P Parking / Parcio





N/G

A4232

Eleanor Pl.

Windsor Esplanade

Car Park /
Maes Parcio

St David's
Hotel & Spa
Gwesty a
Sba Dewi Sant

Cardiff Yacht Club /
Clwb Cychod Caerdydd

Wetlands Reserve / Gwarchodfa'r Gwlypdir





Reedbed Gwelyau Cyrs

I provide a home for many animals sheltering from predators. I also provide an ideal nesting site for Reed Warblers, who weave their nests between my stems. I am used to construct thatched roofs on traditional old buildings.

Rydw i'n darparu cartref i lawer o anifeiliaid sy'n cysgodi rhag ysglyfaethwyr. Rydw i hefyd yn safle nythu delfrydol i Deloriaid y Cyrs sy'n gwau eu nythod rhwng fy nghoesau. Rydw i'n cael fy nefnyddio ar gyfer adeiladu toeau gwellt ar hen adeiladau traddodiadol.

**Make rubbing of the Reedbeds here
Gwnewch rwbaid o'r Gwelyau Cyrs fan hyn**

Reed Bunting Bras y Gors



If you are patient you will often see me perched on top of the reeds, with my distinctive black head and throat.

Os ydych yn amyneddgar byddwch yn fy ngweld i'n aml yn clwydo ar frig yr hesg, gyda fy mhen a gwddf du trawiadol.

**Make rubbing of the Reed Bunting here
Gwnewch rwbaid o Fras y Cyrs fan hyn**


Kestrel Cudyll Coch



Cardiff Bay Wetlands provide an ideal hunting ground for me. I have the ability to hover in one spot and look down before my final descent to catch my prey.

Mae Gwlyptiroedd Bae Caerdydd yn lle delfrydol i mi hela ynddo, ac rwy'n gallu hofran yn fy unfan ac edrych i lawr cyn plymio i lawr i ddal fy ysglyfaeth.

**Make rubbing of the Kestrel here
Gwnewch rwbaid o'r Cudyll Coch fan hyn**




Dragonfly
Gwas-y-neidr

You will often notice me in the summer flying around the Wetlands, whilst hunting other insects or chasing rivals, but did you know I spend most of my life underwater as a nymph?

Byddwch yn fy ngweld i'n aml yn yr haf yn hedfan o amgylch y Gwlyptiroedd, tra'n hela pryfed eraill neu'r gystadleuaeth, ond wyddech chi fy mod i'n treulio'r rhan fwyaf o fy mywyd dan y dŵr fel nymff?

**Make rubbing of the Dragonfly here
Gwnewch rwbaid o Was-y-neidr fan hyn**




Stickleback
Crothell

I have three spines on the top of my back to protect me from predators and some of my cousins have nine spines! Male sticklebacks have bright blue eyes and a red throat in the breeding season, and make a nest for their offspring.

Mae gen i dri phigyn ar fy nghefn i'm gwarchod rhag ysglyfaethwyr ac mae gan rai o'm cefndryd naw ohonynt! Mae gan grethyll lygaid glas llachar a gwddwg coch yn ystod y tymor paru, ac maent yn nythu eu plant hefyd.

**Make rubbing of the Stickleback here
Gwnewch rwbaid o'r Grothell fan hyn**



Toad
Llyffant

I started life from eggs laid in the Wetlands and slowly changed into a tadpole before becoming a toad. Unlike a frog I have brown skin covered with wart like lumps. I tend to hide during the day but come out at night to hunt insects. Having no teeth, I have to swallow my food whole!

Dechreuais fy mywyd o wy wedi'i ddodwy yn y Gwlyptir, gan newid yn araf i fod yn benbwl ac yna'n llyffant. Yn wahanol i froga mae gen i groen brown lympiog. Bydda i'n cuddio yn ystod y dydd ond yn hela am bryfed yn y nos. Gan nad oes gen i ddannedd mae'n rhaid i mi lyncu fy mwyd yn gyfan!

**Make rubbing of the Toad here
Gwnewch rwbaid o'r Llyffant fan hyn**




Heron Y Crëyr Glas

My favourite foods are fish and frogs, but I also like the occasional duckling. I fly quite slowly and pull my neck back into an s-shape. I am an expert at fishing and stand as still as a statue before my final strike!

Fy hoff fwydydd yw pysgod a brogaod ond rydw i hefyd wedi cael blas ar hwyaid bach. Rwy'n hedfan yn gymharol araf ac yn cadw fy ngwddf mewn siâp S. Rwy'n bysgotwr penigamp, ac yn sefyll yn gwbl lonydd cyn dal fy mhrae!

**Make rubbing of the Heron here
Gwnewch rwbaid o'r Crëyr Glas fan hyn**




Wildflower Blodyn Gwylt

There many species of wildflower on the Wetlands, all different colours, shapes and sizes. These flowers produce sugary nectar and pollen to attract hungry insects. Be quiet and vigilant and you will be surprised at the different types of insect that you see.

Mae nifer o rywogaethau o flodau gwylt ar y Gwlyptiroedd, o bob lliw, maint a llun. Mae'r blodau hyn yn cynhyrchu neithdar melys a phaill sy'n denu pryfed llwglyd. Byddwch yn dawel a gwylidwrus ac fe gewch eich syfrdanu faint o wahanol fathau o bryfed welwch chi.

**Make rubbing of the Wildflowers here
Gwnewch rwbaid o'r Blodyn Gwylt fan hyn**




Yellow Flag Iris Gellesgen Felen

I am a wildflower with bright yellow petals and sword shaped leaves and I love my roots to be in still water. Iris was the Greek Goddess of the rainbow and messenger to the gods!

Rydw i'n flodyn gwylt gyda phetalau melyn llachar a dail siâp cleddyf. Mae'n well gen i pan fydd fy ngwreiddiau mewn dŵr llongydd. Iris oedd Duwies Roegaidd yr enfys a chennad i'r duwiau!

**Make rubbing of the Yellow Flag Iris here
Gwnewch rwbaid o'r Ellesgen Felen fan hyn**



Mallard
Hwyaden Wyllt

I am a boy duck and have a bright green or blue head. The girl ducks are all brown. Beetles, flies, dragonflies and worms are my favourite foods. I love water – as soon as I was born I knew how to swim.

Boi bach â phen gwyrdd neu las golau ydw i, yn wahanol i'r merched sydd i gyd yn frown. Fy hoff fwydydd yw chwilod, pryfed, gweision-y-neidr a mwydod. Rydw i wrth fy modd yn y dŵr – roeddwn i'n gwybod sut i nofio o'r eiliad y cefais fy ngeni.

Make rubbing of the Mallard here
Gwnewch rwbaid o'r Hwyaden Wyllt fan hyn




Great Crested Grebe
Gwyach Fawr Gopog

I have very colourful breeding plumage and my courtship dances are exciting to watch. Once my chicks have hatched they will quite often ride on my back as I swim around the Bay.

Mae gen i blu bridio lliwgar iawn ac mae fy nawnsio carwriaethol yn dipyn o beth i'w weld. Ar ôl i'm cywion ddeor, maen nhw'n aml yn sefyll ar fy nghefn tra fy mod i'n nofio o amgylch y Bae.

Make rubbing of the Great Crested Grebe here
Gwnewch rwbaid o'r Wyach Fawr Gopog fan hyn



Peacock Butterfly
Iâr Fach Lygadog

I love colourful flowers, the nectar they produce is my dinner. I actually stay in Britain for the winter, unlike most adult butterflies, and I have big eye shapes on my wings to confuse birds who try to eat me!

Rwyf wrth fy modd â blodau lliwgar, rwy'n ciniawa ar y neithdar maen nhw'n ei gynhyrchu. Rwy'n aros yng Nghymru dros y gaeaf, yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r pili pala, ac mae gen i siapiau llygaid mawr ar fy adenydd i ddrysu'r adar sy'n ceisio fy mwyta!

Make rubbing of the Peacock Butterfly here
Gwnewch rwbaid o'r Iâr Fach Lygadog fan hyn

Instructions:


Follow the map inside to find each of the 12 marker posts in and around Cardiff Bay Wetlands Reserve.

Each post has a metal plaque on top with a picture of a plant, animal, insect or habitat or feature that you might see in and around Cardiff Bay Wetlands Reserve.

Once you get to the first plaque, match the picture in the box on the leaflet to the picture on the top of the plaque.

- Place the leaflet over the plaque
- Hold the paper firmly in place, then using a coloured pencil or crayon, rub over the top
- Lift the paper off and see the picture revealed
- Read the fun facts about this picture
- Continue around the park to find all 12 plaques

HAVE FUN!



For further information about biodiversity and other Wildlife Explorer Trails in Cardiff, please contact:

biodiversity@cardiff.gov.uk
or visit www.outdoorcardiff.com

For information about walks and other things to do in Cardiff's countryside, please visit:
www.outdoorcardiff.com

Cardiff Harbour Authority
029 2087 7900
www.cardiffharbour.com

Cyfarwyddiadau:

Dilynwch y map y tu mewn i ddod o hyd i bob un o'r 12 o byst marcio yng Ngwarchodfa Gwlyptiroedd Bae Caerdydd a'r cyffiniau.

Ar ben bob postyn mae plac metel gyda llun planhigyn, anifail, pryfyn neu gynefin neu nodwedd y gallech ddod ar eu traws yng Ngwarchodfa Gwlyptiroedd Bae Caerdydd a'r cyffiniau.

Unwaith i chi gyrraedd y plac cyntaf, parwch y llun yn y bocs ar y daflen gyda'r llun ar ben y plac.

- Rhowch y daflen ar ben y plac
- Daliwch y papur yn sownd yn ei le a chan ddefnyddio pensil lliw neu greon, rhwbiwch drosto
- Codwch y papur i weld y llun
- Darllenwch y ffeithiau difyr am y llun hwn
- Ewch yn eich blaen o amgylch y parc i ddarganfod pob un o'r 12 o blaciau

MWYNHEWCH!



I gael rhagor o wybodaeth am fioamrywiaeth a Llwybrau Antur Bywyd Gwyllt eraill yng Nghaerdydd, cysylltwch â:

bioamrywiaeth@caerdydd.gov.uk neu ewch i
www.caerdyddawyraged.com

I gael rhagor o wybodaeth am deithiau cerdded a phethau eraill i'w gwneud yng nghefn gwlad Caerdydd, ewch i:

www.caerdyddawyraged.com

Awdurdod Harbwr Caerdydd
029 2087 7900
www.harbwrcaerdydd.com

Smartphone:
Scan here for more information.
Ffôn call:
Sganiwch yma i gael rhagor o wybodaeth.

